# Y Cymoedd – Cyd-destun Economaidd

## Crynodeb

Mae'r nodyn hwn yn cyflwyno dadansoddiad cychwynnol sy'n seiliedig yn bennaf ar ystadegau sydd ar gael ar lefel awdurdodau lleol ac ardaloedd Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth (NUTS) 3. Mae'n canolbwyntio ar ystadegau ar gyfer ardaloedd daearyddol nad ydynt yn cyfateb yn union i ffocws y tasglu. Cyflwynir rhagor o ddadansoddiadau maes o law.

**Perfformiad economaidd diweddar y cymoedd**

- Nid yw perfformiad ardal y Cymoedd cystal â pherfformiad Cymru gyfan yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion economaidd.

- Yn gyffredinol, mae'r tanberfformiad hwn yn fach o safbwynt cyfraddau cyflogaeth **cyfartalog**, ac mae'n gyfyngedig ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.

- Yn gyffredinol, mae twf poblogaeth ardal y Cymoedd wedi bod yn is na Chymru gyfan.

- Er bod gwerth ychwanegol gros y pen wedi'i gynnwys gan ei fod yn fesur amlwg sy'n cael ei nodi yn eang, mae'n ddangosydd hynod gamarweiniol ar lefelau daearyddol rhanbarthol ac is-ranbarthol. Cymudo sy'n gyfrifol am hyn yn bennaf, ynghyd â'r ffaith fod gwerth ychwanegol gros yn adlewyrchu strwythur diwydiannol a demograffig. O ganlyniad, mae'n anodd dehongli tueddiadau.

- Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae gwerth ychwanegol gros y pen yng Nghymru gyfan ac yn y Cymoedd wedi bod yn debyg iawn i lefel y DU gyfan, a bu arwyddion o welliant cymharol ym mherfformiad y Cymoedd ers y flwyddyn 2000. Nid oes yr un gwelliant cymharol i'w weld yng Nghymoedd Gwent.

- Mae gwerth ychwanegol gros fesul awr sy'n cael ei gweithio yn ddangosydd cyffredinol o gynhyrchiant llafur, a gan fod oriau sy'n cael eu gweithio yn cael eu mesur ar sail y gweithlu, nid yw'r mesur yn cael ei lurgunio gan gymudo yn yr un ffordd â gwerth ychwanegol gros y pen. Mae ardaloedd y Cymoedd yn perfformio'n gymharol dda yn erbyn y dangosydd hwn, ond mae hyn yn debygol o adlewyrchu cyfansoddiad diwydiannol yn rhannol, felly nid yw'n cael ei adlewyrchu mewn lefelau incwm y trigolion.

- Ledled y DU yn ei chyfanrwydd, mae dibyniaeth ar weithgynhyrchu wedi'i chysylltu â thwf cymharol araf, ac mae'r patrwm hwn yn amlwg yng Nghymru hefyd. Mae ardal Gwent, a Chymoedd Gwent yn benodol, yn perfformio'n wan yn y cyswllt hwn.

- Mae tanberfformiad cymharol Cymru (a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) o gymharu â'r UE yn ystod y cyfnod ers 2004 yn adlewyrchu tuedd ledled y DU yn hytrach nag unrhyw duedd sy'n unigryw i Gymru. Mewn gwirionedd, mae perfformiad Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gwella o gymharu â Chymru gyfan a'r DU.

- Mae'n debyg mai Incwm Gwario Gros yr Aelwydydd (GDHI) yw'r dangosydd unigol gorau sydd ar gael o safonau byw materol. Yn wahanol i gynnyrch domestig gros y pen, mae perfformiad cymharol y Cymoedd wedi dirywio ers tua 2005, ac mae Pen-y-bont a Chastell-nedd Port Talbot, a Chymoedd Gwent, yn dangos tuedd dirywio hirach.

- Er gwaethaf y dirwasgiad diweddar, mae cyfraddau cyflogaeth ledled ardaloedd y Cymoedd wedi cynyddu'n sylweddol, ac yn gyffredinol mae'r cynnydd mwyaf wedi bod mewn ardaloedd a oedd â'r cyfraddau cychwynnol isaf. Mae'r cynnydd wedi deillio o lefelau is o anweithgarwch (yn hytrach na llai o ddiweithdra).

- Nid yw'r esboniad yn gwbl eglur, ond credir ei fod yn gysylltiedig â'r ffaith fod proffil sgiliau'r boblogaeth yn gwella (a'r ffaith fod mwy o fenywod yn gweithio a mwy o bobl yn gweithio'n rhan-amser).

- Yn wahanol i lefelau cyflogaeth, mae cyflogau cymharol wedi gostwng yn y rhan fwyaf o'r Cymoedd (ac yng Nghymru gyfan).

**Cyd-destun rhanbarthol**

- Ceir cyfraddau uchel o gymudo net (h.y. mae'r llif cymudo allan yn fwy na'r llif cymudo i mewn) yn y rhan fwyaf o ardaloedd y Cymoedd, ac mae'r cyfraddau'n cynyddu dros amser yn gyffredinol.

- Mae lefelau cymudo drwy drafnidiaeth gyhoeddus yn ninas-ranbarth Caerdydd (sy'n cynnwys holl ardaloedd y Cymoedd ac eithrio Castell-nedd Port Talbot) yn is na'r lefelau mewn ardaloedd lled gyfatebol sydd â systemau "Metro". Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw'r defnydd isel o wasanaethau bws yn hytrach na defnydd isel o'r rheilffordd/rheilffordd ysgafn.

- Gall defnydd isel o drafnidiaeth gyhoeddus / defnydd uchel o drafnidiaeth breifat yn ninas-ranbarth Caerdydd adlewyrchu daearyddiaeth economaidd (fel y dangosir gan ddwysedd poblogaeth).

- Gall hyn ddangos nad oes llawer o gyfleoedd i wella cysylltedd at ddibenion cymudo o'r Cymoedd **uchaf** i Gaerdydd a'r arfordir.

**Tystiolaeth yn ymwneud â ffactorau sy'n llunio perfformiad economaidd**

- Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer unigolion yn fwy cysylltiedig o lawer â lefel eu cymwysterau (a'u statws anabledd) na'u lleoliad.

- Mae yna "gosb" gyflogaeth ychwanegol i'r rhai sy'n byw yn y Cymoedd uchaf, ond mae'n gymharol fach ac yn effeithio ar y rhai â chymwysterau is yn bennaf (a/neu bobl ag anableddau). Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm ledled y DU lle mae'r rhai sydd â lefelau sgiliau is yn fwy tebygol o gael eu cyflogi pan fydd unigolion hynod fedrus yn gyfran gymharol fawr o'r boblogaeth (mwy na thebyg yn sgil creu swyddi sector gwasanaeth lleol o ganlyniad i wariant uchel gan drigolion).

- Fel y nodwyd uchod, mae lefelau cynhyrchiant a thâl (ond nid twf y naill na'r llall) yn gysylltiedig â "chrynhoad" neu "màs economaidd"; mae cyfran gymharol fach o boblogaeth Cymru wedi'i lleoli mewn canolfannau â màs economaidd uchel.

- Mae tystiolaeth bendant ond cyfyngedig iawn ar gael yn ymwneud â'r ffactorau sydd â chysylltiad cyson â pherfformiad economaidd ar lefel ranbarthol.

- Prif oblygiadau polisi sy'n deillio o'r dystiolaeth orau:

  - mae mynd i'r afael â sgiliau isel yn bwysig i bobl unigol ac i ffyniant rhanbarthau cyfan.

  - gall cysylltiadau trafnidiaeth wedi'u targedu'n dda fod o gymorth hefyd….. ond mae angen gwneud mwy na chreu cysylltiadau er mwyn hwyluso trafnidiaeth; dylai darpariaeth fynd i'r afael â'r galw cudd.

## Y Cymoedd – Cyd-destun Economaidd

### Cyflwyniad

- Mae'r nodyn hwn yn cyflwyno dadansoddiad **cychwynnol** sy'n seiliedig yn bennaf ar ystadegau sydd ar gael ar lefel awdurdodau lleol ac ardaloedd Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth 3. Mae data awdurdodau lleol wedi'i ddefnyddio os yw ar gael; mae rhywfaint o ddata economaidd ar gael ar lefel Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth 3 yn unig, ac mewn rhai achosion mae data awdurdodau lleol wedi'i agregu i'r lefel hon at ddibenion cymharu.


- Mae rhagor o waith dadansoddi sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth bwrpasol yn gallu cael ei gomisiynu yn ôl y gofyn. Yn gyffredinol, mae amodau economaidd yn fwy negyddol yn y rhan fwyaf o'r Cymoedd uchaf, yn enwedig ym Mlaenau Gwent. Nid yw'r dadansoddiad yn y nodyn hwn yn datgelu'r darlun hwn yn llawn.

- Mae ardal graidd y Cymoedd ar y sail hon wedi'i lliwio'n goch yn y tabl, ac mae'r ardal sydd wedi'i chynnwys fel rhan o ardal ehangach y Cymoedd wedi'i lliwio'n felyn.

- Daw'r ystadegau o Lywodraeth Cymru (StatsCymru) oni nodir yn wahanol.

<table>
<tr><th>Awdurdodau lleol</th><th>Ardaloedd Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth 3</th><th>Dinas-ranbarthau</th></tr>
<tr><td>Abertawe</td><td>Abertawe</td><td rowspan="2">Abertawe</td></tr>
<tr><td>Castell-nedd Port Talbot</td><td rowspan="2">Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot</td></tr>
<tr><td>Pen-y-bont ar Ogwr</td><td rowspan="10">Caerdydd</td></tr>
<tr><td>Rhondda Cynon Taf</td><td rowspan="2">Y Cymoedd Canol</td></tr>
<tr><td>Merthyr Tudful</td></tr>
<tr><td>Caerffili</td><td rowspan="3">Cymoedd Gwent</td></tr>
<tr><td>Blaenau Gwent</td></tr>
<tr><td>Torfaen</td></tr>
<tr><td>Bro Morgannwg</td><td rowspan="2">Caerdydd a'r Fro</td></tr>
<tr><td>Caerdydd</td></tr>
<tr><td>Casnewydd</td><td rowspan="2">Sir Fynwy a Chasnewydd</td></tr>
<tr><td>Sir Fynwy</td></tr>
</table>

## Adran 1: perfformiad economaidd presennol a thueddiadau demograffig




**Ardaloedd NUTS 3 y Cymoedd: Perfformiad Economaidd Diweddaraf (DU=100)**

Cymoedd Gwent   Y Cymoedd Canol   Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot   Cymru


GVA y pen 2014   GVA fesul awr sy'n cael ei gweithio 2014   Cyfraddau cyflogaeth 2015   Cyflogau wythnosol (llawn amser) 2014/15   Incwm Aelwydydd 2014


**Prif negeseuon:**

- Yn gyffredinol, nid yw perfformiad ardal y Cymoedd cystal â pherfformiad Cymru gyfan yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion economaidd.

- Yn gyffredinol, mae'r tanberfformiad hwn yn fach o safbwynt cyfraddau cyflogaeth **cyfartalog**, ac mae'n gyfyngedig ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.

**Tueddiadau ar gyfer cyfanswm y boblogaeth a'r boblogaeth oedran gweithio**




**Awdurdodau Lleol y Cymoedd: poblogaeth pob oedran (1991=100)**

Pen-y-bont ar Ogwr
Cymru
Caerffili
Castell-nedd Port Talbot
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)

Merthyr Tudful
Rhondda Cynon Taf
Torfaen
Blaenau Gwent


**Awdurdodau Lleol y Cymoedd: poblogaeth 16-64 oed (1991=100)**

Pen-y-bont ar Ogwr
Cymru
Caerffili
Castell-nedd Port Talbot
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Merthyr Tudful
Rhondda Cynon Taf
Torfaen
Blaenau Gwent

**Prif negeseuon:**

- Mae’r gostyngiad diweddar yn y boblogaeth oedran gweithio yn adlewyrchu’r ffaith fod y boblogaeth yn heneiddio yn y Cymoedd a ledled Cymru.
- Yn gyffredinol, mae twf poblogaeth yn y Cymoedd wedi bod yn is nag yng Nghymru gyfan.
- Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn eithriad; mae’r twf ym Mlaenau Gwent (a’r twf ym mhoblogaeth oedran gweithio Torfaen) wedi bod yn wan iawn; mae’r twf ym Merthyr wedi gwella ers tua 2005.

## Adran 2: tueddiadau mewn perfformiad economaidd





**Ardaloedd NUTS 3 y Cymoedd: GVA y pen (DU=100)**

Cymru
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Y Cymoedd Canol
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Cymoedd Gwent

**Prif negeseuon:**

- Er bod gwerth ychwanegol gros y pen wedi'i gynnwys gan ei fod yn fesur amlwg sy'n cael ei nodi yn eang, mae'n ddangosydd hynod gamarweiniol ar lefelau daearyddol rhanbarthol ac is-ranbarthol. Cymudo sy'n gyfrifol am hyn yn bennaf, ynghyd â'r ffaith fod gwerth ychwanegol gros yn adlewyrchu strwythur diwydiannol a demograffig. (Mae gwerth ychwanegol gros yn seiliedig ar y gweithle, tra bod poblogaeth yn seiliedig ar drigolion, ac mae gwerth ychwanegol gros yn mesur gwerth gros allbwn heb wneud addasiadau ar gyfer defnydd cyfalaf neu enillion ar gyfalaf.) O ganlyniad, mae'n anodd dehongli tueddiadau.

- Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae gwerth ychwanegol gros y pen yng Nghymru gyfan ac yn y Cymoedd wedi bod yn debyg iawn i lefel y DU gyfan, a bu arwyddion o welliant cymharol ym mherfformiad y Cymoedd ers y flwyddyn 2000. Nid yw'r un gwelliant cymharol i'w weld yng Nghymoedd Gwent, ac mae'n **bosibl** bod perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot yn adlewyrchu hynt a helynt y diwydiant dur.





**Ardaloedd NUTS 3 Cymru: GVA yr awr (gweithle) yn erbyn GVA y pen**

**GVA y pen 2012-14**
**GVA fesul awr sy'n cael ei gweithio (2012-14)**
Powys
Gwynedd
Ynys Môn
Caerdydd a'r Fro
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Cymoedd Gwent
Y Cymoedd Canol

**Prif negeseuon:**

- Mae gwerth ychwanegol gros fesul awr sy’n cael ei gweithio yn ddangosydd cyffredinol o gynhyrchiant llafur, a gan fod oriau sy’n cael eu gweithio yn cael eu mesur ar sail y gweithlu, nid yw’r mesur yn cael ei lurgunio gan gymudo yn yr un ffordd â gwerth ychwanegol gros y pen.

- Mae ardaloedd y Cymoedd yn perfformio’n gymharol dda yn erbyn y dangosydd hwn, ond mae hyn yn debygol o adlewyrchu cyfansoddiad diwydiannol yn rhannol (fel y nodwyd uchod, nid yw gwerth ychwanegol gros yn cael ei addasu ar sail defnydd cyfalaf neu enillion ar gyfalaf, sy’n tueddu i fod yn uwch yn y sector cynhyrchu sy’n cael ei gynrychioli’n anghymesur yn y Cymoedd – gweler isod).




**Ardaloedd NUTS 3 Cymru: twf yng nghyfanswm y GVA**


**2012-14 o’i gymharu â 1997-99**

Ynys Môn
De-orllewin Cymru
Gwynedd
Caerdydd a Bro Morgannwg
Y Cymoedd Canol
Abertawe
Conwy a Sir Ddinbych

Cymru
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Powys
Sir y Fflint a Wrecsam
Sir Fynwy a Chasnewydd
Cymoedd Gwent

**Prif negeseuon**

- Mae’r siart yn dangos canran y twf yng nghyfanswm y gwerth ychwanegol gros mewn prisiau cyfredol (h.y. fe’i dangosir fel ffigur agregedig, nid ar sail y pen).
- Mae hyn yn darparu mynegiant cyffredinol o gyfraddau cymharol twf economaidd ledled Cymru.
- Ledled y DU yn ei chyfanrwydd, mae dibyniaeth ar weithgynhyrchu wedi’i chysylltu â thwf cymharol araf, ac mae’r patrwm hwn yn amlwg yng Nghymru hefyd. Mae ardal Gwent, a Chymoedd Gwent yn benodol, yn perfformio’n wan yn y cyswllt hwn.
- Mae’r patrymau hyn yn adlewyrchu effeithiau lluosog, felly nid oes modd nodi unrhyw achos unigol ar gyfer perfformiad ardal.




**Source: Eurostat**


**GDP y pen yn ôl safonau pwerau prynu o'i gymharu ag UE-28**

% o UE-28
DU
Dwyrain Cymru
Cymru
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

**Prif negeseuon:**

- Mae tanberfformiad cymharol Cymru (a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) o gymharu â'r UE yn ystod y cyfnod ers 2004 yn adlewyrchu tuedd ledled y DU yn hytrach nag unrhyw duedd sy'n unigryw i Gymru. (Mewn gwirionedd, mae perfformiad Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gwella o gymharu â Chymru gyfan a'r DU).

- Mae'r duedd hon yn y DU yn seiliedig ar gynnydd mwy yng nghostau byw yn y DU nag yng ngweddill yr UE, gan leihau gwerth gwirioneddol cynnyrch y DU.





**Ardaloedd NUTS 3 y Cymoedd: Incwm Aelwydydd (DU=100)**

Cymru
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Y Cymoedd Canol
Cymoedd Gwent

**Prif negeseuon:**

- Mae’r siart yn dangos incwm aelwydydd domestig gros cymharol (GDHI) y pen. Dyma’r incwm y mae pobl yn ei dderbyn ar ôl treth a didyniadau eraill ac ar ôl derbyn taliadau pensiwn, credydau treth a budd-daliadau eraill (nid yw’n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus wedi’u derbyn mewn nwyddau).

- Mae’n debyg mai GDHI yw’r dangosydd unigol gorau sydd ar gael o safonau byw materol. Yn wahanol i gynnyrch domestig gros y pen, mae perfformiad cymharol y Cymoedd wedi dirywio ers tua 2005, ac mae Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, a Chymoedd Gwent, yn dangos tuedd dirywio hirach. Cafwyd gwelliant cymharol sylweddol ym mherfformiad y Cymoedd Canol yn ystod pum mlynedd gyntaf y mileniwm newydd.





**Ardaloedd NUTS 3: GVA y pen ac incwm aelwydydd 2012-14 (DU=100)**

Incwm Aelwydydd Domestig Gros
GVA y pen
Conwy a Sir Ddinbych
Cymoedd Gwent
Powys
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Y Cymoedd Canol
Caerdydd a’r Fro

**Prif negeseuon:**

- Ychydig iawn o gysylltiad sydd rhwng GVA y pen a safonau byw (fel y cânt eu mesur gan incwm aelwydydd). Powys sydd â’r lefel uchaf o incwm aelwydydd yng Nghymru.

- Nid yw hyn yn annisgwyl: mae’r cysylltiad rhwng GVA y pen ac incwm trigolion yn gyfyngedig (mae hyn yn wir am drigolion sy’n gweithio hefyd – am y rhesymau a nodir uchod).




**Awdurdodau Lleol y Cymoedd: Cyfraddau cyflogaeth (DU=100)**
**(seiliedig ar lefel 2013-15)**

Pen-y-bont ar Ogwr
Torfaen
Cymru
Rhondda Cynon Taf
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Caerffili
Blaenau Gwent
Castell-nedd Port Talbot
Merthyr Tudful


**Prif negeseuon:**

- Er gwaethaf y dirwasgiad diweddar, mae cyfraddau cyflogaeth ledled ardaloedd y Cymoedd wedi cynyddu'n sylweddol.

- Yn gyffredinol, mae'r cynnydd mwyaf wedi bod mewn ardaloedd a oedd â'r cyfraddau cychwynnol isaf.

- Mae'r cynnydd wedi deillio o lefelau is o anweithgarwch (yn hytrach na llai o ddiweithdra).

- Nid yw'r esboniad yn gwbl eglur, ond credir ei fod yn gysylltiedig â'r ffaith fod proffil sgiliau'r boblogaeth yn gwella (a'r ffaith fod mwy o fenywod yn gweithio a mwy o bobl yn gweithio'n rhan-amser).




**Awdurdodau Lleol y Cymoedd: Cyflogau (DU=100)**
**(seiliedig ar lefel 2013-15)**

Pen-y-bont ar Ogwr
Caerffili
Cymru
Castell-nedd Port Talbot
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Rhondda Cynon Taf
Torfaen
Merthyr Tudful
Blaenau Gwent

**Prif negeseuon:**

- Yn wahanol i lefelau cyflogaeth, mae cyflogau cymharol wedi gostwng yn y rhan fwyaf o'r Cymoedd (ac yng Nghymru gyfan).

- Nid yw hyn yn gwbl annisgwyl yng nghyd-destun cyflogaeth gynyddol (lle mae'r lleiaf cynhyrchiol yn cael eu hymgorffori fwyfwy i'r gweithlu cyflogedig), a pherfformiad gwell Llundain a de-ddwyrain Lloegr, sydd wedi cynyddu "meincnod" y DU.

**Adran 3: ffactorau sy'n llywio perfformiad economaidd**

Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)[1] wedi cynnal adolygiad o'r dystiolaeth yn ymwneud ag ysgogwyr twf economaidd rhanbarthol mewn gwledydd datblygedig yn ddiweddar. Nododd yr astudiaeth hon fod dau ffactor yn bwysig iawn.

Yn gyntaf, nododd yr astudiaeth fod cyfalaf dynol (sgiliau isel yn benodol) yn bwysig ymhobman:

*"For all types of region, human capital appears to be critical, though its relative importance varies according to the level of development. Overall,* ***reducing the proportion of people in a region with very low skills*** *seems to matter more than increasing the share with very high skill levels."*

Mewn geiriau eraill, mae sgiliau yn ffactor allweddol yn y canlyniadau economaidd sy'n wynebu unigolion, ac ym mherfformiad economaidd y rhanbarth lle maent yn byw.

Yn ail, nodwyd bod seilwaith cysylltiol yn bwysig ar gyfer rhanbarthau sy'n perfformio'n waeth (ond yn llai pwysig yn y rhanbarthau sy'n perfformio'n dda):

*"In sum, the differences between fast- and slow-growing regions vary significantly across levels of development. Among the less developed regions, those growing faster than the national average appear to have* ***more infrastructure, better human capital and higher density of activity*** *relative to the underperforming group. As regions move into higher levels of development,* ***infrastructure investment*** *becomes relatively more significant, as does labour force activation. [However] in the most advanced regions, infrastructure density is not a key factor…….Advanced regions would tend, on the whole, to have good connective infrastructure already."*

Un ffactor sydd ag arwyddocâd penodol o bosibl i'r Cymoedd a de-ddwyrain Cymru yw "dwysedd gweithgarwch". Mae llawer iawn o dystiolaeth yn dangos manteision economaidd dwysedd o fath penodol – màs economaidd, neu "grynhoad". Mae adolygiad diweddar ar gyfer Adran Drafnidiaeth y DU wedi crynhoi hyn[2]:


*"Studies consistently find a positive relationship [between economic mass and productivity]. Furthermore, the relationship is quantitatively important……An authoritative survey of the literature finds that 'In sum, doubling city size seems to increase productivity by an amount that ranges from roughly 3-8%' (Rosenthal and Strange 2004, p2133). This means that the elasticity of productivity with respect to city size is in the range 0.05- 0.11….. suggesting that productivity in a city of 5 million is between 12% and 26% higher than in a city of ½ million."*

[1] Promoting Growth in All Regions. Lessons from Across the OECD (2012). www.oecd.org/site/govrdpc/50138839.pdf

[2] Transport investment and economic performance: Implications for project appraisal Venables, Laird, Overman (DfT – 2014): https://www.gov.uk/government/uploads/.../TIEP_Report.pdf

**Prif negeseuon:**

- Mae yna dystiolaeth gadarn ond cyfyngedig iawn ynglŷn â'r ffactorau sy'n cael eu cysylltu'n gyson â llwyddiant economaidd ar lefel ranbarthol (gweler isod hefyd).
- Goblygiadau polisi: mae mynd i'r afael â sgiliau isel yn bwysig i bobl unigol ac i ffyniant rhanbarthau cyfan.
- Gall cysylltiadau trafnidiaeth wedi'u targedu'n dda fod o gymorth hefyd….. ond mae angen gwneud mwy na chreu cysylltiadau er mwyn hwyluso trafnidiaeth; dylai darpariaeth fynd i'r afael â'r galw cudd.




**Ffynhonnell**: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru


**Cyfradd cyflogaeth, 16-64 oed (cyn myfyrwyr), 2015**

Pawb
NQF lefel 4+
O dan NQF lefel 4
Dim cymwysterau
Blaenau'r Cymoedd
Gweddill y Cymoedd
De-ddwyrain Cymru ac eithrio'r Cymoedd
Gweddill Cymru
Cymru
Llundain
DU

**Prif negeseuon:**

- Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer unigolion yn fwy cysylltiedig o lawer â lefel eu cymwysterau na'u lleoliad. (Ond rhaid nodi bod llawer o bobl yn byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwahanol.)
- Mae yna "gosb" gyflogaeth ychwanegol i'r rhai sy'n byw yn y Cymoedd uchaf, ond mae'n gymharol fach ac yn effeithio ar y rhai â chymwysterau is yn bennaf.
- Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm ledled y DU lle mae'r rhai sydd â lefelau sgiliau is yn fwy tebygol o gael eu cyflogi pan fydd unigolion hynod fedrus yn gyfran gymharol fawr o'r boblogaeth (mwy na thebyg yn sgil creu swyddi sector gwasanaeth lleol o ganlyniad i wariant uchel gan drigolion).

**Canran y boblogaeth mewn aneddiadau dros 125,000**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Yr Alban
Gorllewin Canolbarth Lloegr
Swydd Efrog a Humber
De-orllewin Lloegr
Dwyrain Canolbarth Lloegr
Gogledd-orllewin Lloegr
Gogledd-ddwyrain Lloegr
Cymru

**Prif negeseuon:**

- Fel y nodwyd uchod, mae lefelau cynhyrchiant a thâl (ond nid twf y naill na'r llall) yn gysylltiedig â "chrynhoad" neu "màs economaidd"; mae cyfran gymharol fach o boblogaeth Cymru wedi'i lleoli mewn canolfannau â màs economaidd uchel.

# Adran 4: rhagor o gyd-destun

## a. Cymudo a thrafnidiaeth





**Cymudo net o'i gymharu â thrigolion sy'n gweithio (%)**

Blaenau Gwent
Caerffili
Rhondda Cynon Taf
Castell-nedd Port Talbot
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Torfaen
Merthyr Tudful
Pen-y-bont ar Ogwr

**Prif negeseuon:**

- Ceir cyfraddau uchel o gymudo net (h.y. mae'r llif cymudo allan yn fwy na'r llif cymudo i mewn) yn y rhan fwyaf o ardaloedd y Cymoedd, ac mae'r cyfraddau'n cynyddu dros amser yn gyffredinol.





**Awdurdodau Lleol y Cymoedd: Cymudo dwy ffordd**
**Cymudo o'i gymharu â thrigolion sy'n gweithio**

Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Rhondda Cynon Taf
Castell-nedd Port Talbot
Merthyr Tudful
Pen-y-bont ar Ogwr
Llif cymudo allan
Llif cymudo i mewn

**Prif negeseuon:**

- Er bod y llif cymudo allan yn fwy na'r llif cymudo i mewn yn y Cymoedd, mae'r llifoedd yn symud i'r ddau gyfeiriad, ac mae llifoedd cymudo i mewn arwyddocaol yn gwrthbwyso'r llifoedd cymudo allan i ryw raddau.




Ffynhonnell: Cyfrifiad (2011)

**Dinas-ranbarth Caerdydd: dull cymudo, ac eithrio cerdded (%)**

Tyne and Wear
Manceinion Fwyaf
Cyfartaledd ar gyfer T&W a GM
Dinas-ranbarth Caerdydd
Rheilffordd ysgafn a thrên
Bws ac ati
Ffordd breifat
Dwysedd poblogaeth


**Prif negeseuon:**

- Mae lefelau cymudo drwy drafnidiaeth gyhoeddus yn ninas-ranbarth Caerdydd (sy'n cynnwys holl ardaloedd y Cymoedd ac eithrio Castell-nedd Port Talbot) yn is na'r lefelau mewn ardaloedd lled gyfatebol sydd â systemau "Metro".

- Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw'r defnydd isel o wasanaethau bws yn hytrach na defnydd isel o'r rheilffordd/rheilffordd ysgafn.

- Gall defnydd isel o drafnidiaeth gyhoeddus / defnydd uchel o drafnidiaeth breifat yn ninas-ranbarth Caerdydd adlewyrchu daearyddiaeth economaidd (fel y dangosir gan ddwysedd poblogaeth).

## b. Strwythur a chyflogaeth ddiwydiannol





**Awdurdodau Lleol Cymru: Y berthynas rhwng cyflogaeth yn y diwydiannau cynhyrchu a thâl llawn amser wythnosol (yn y gweithle)**

Cyflogau llawn amser wythnosol cyfartalog, 2013-14
Cyfran cyflogaeth yn y diwydiannau cynhyrchu, %
Caerdydd
Conwy
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Powys
Merthyr
Torfaen
Castell-nedd Port Talbot
Caerffili
Blaenau Gwent
Sir y Fflint

**Prif negeseuon:**

- Mae lefelau diweithdra yn gymharol uchel yn y sector cynhyrchu yn y Cymoedd (y diwydiannau cynhyrchu yn bennaf, ond y diwydiannau echdynnu hefyd).

- Nid oes unrhyw gysylltiad clir rhwng tâl cyfartalog a chyflogaeth yn y sector cynhyrchu.





**Awdurdodau Lleol Cymru: Cyflogau a dwysedd busnes**

Cyflogau llawn amser wythnosol cyfartalog, 2013-14
Busnesau fesul 10,000 o'r boblogaeth
Caerdydd
Pen-y-bont ar Ogwr
Merthyr Tudful
Blaenau Gwent
Powys

**Prif negeseuon:**

- Mae entrepreneuriaeth (fel y'i dangosir gan ddwysedd busnes) yn isel yn y Cymoedd.
- Nid oes unrhyw gysylltiad syml rhwng entrepreneuriaeth (fel y'i dangosir gan ddwysedd busnes) a lefelau cyflog.





**Ardaloedd NUTS 3: Cyfraddau hunangyflogaeth ac incwm aelwydydd, 2012-14**

Incwm Aelwydydd Domestig Gros, %DU
Cyfraddau hunangyflogaeth
Ynys Môn a Chasnewydd
Y Cymoedd Canol
Cymoedd Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Powys
Gwynedd

**Prif negeseuon:**

- Mae cyfraddau hunangyflogaeth (dangosydd arall o entrepreneuriaeth) yn isel yn y Cymoedd.
- Mae'n bosibl bod cysylltiad gwan rhwng cyfraddau hunangyflogaeth ac incwm aelwydydd, ond mae cyfeiriad yr achosiaeth yn aneglur.

## c. Tlodi, amddifadedd a chyflogaeth




Ffynhonnell: Dadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyfansoddiad plant mewn tlodi cymharol ac amddifadedd sylweddol gydag incwm isel, y DU, 2014/14**

Tlodi cymharol, ar ôl costau tai
Amddifadedd sylweddol ac incwm isel
Cwpl, y ddau mewn gwaith llawn amser
Unig riant mewn gwaith llawn amser
Cwpl, y naill mewn gwaith llawn amser a'r llall mewn gwaith rhan-amser
Unig riant mewn gwaith rhan-amser
Cwpl, un neu fwy mewn gwaith rhan-amser
Cwpl hunangyflogedig
Cwpl, y naill na'r llall yn gweithio
Cwpl, y naill mewn gwaith llawn amser, y llall ddim yn gweithio
Unig riant, ddim yn gweithio


**Prif negeseuon:**

- Mae tlodi cymharol yn cael ei fesur fel cyfran y boblogaeth sy'n byw ar aelwydydd â llai na 60% o incwm aelwydydd canolrif y DU ar adeg benodol (felly nid yw'n ystyried lefel neu barhad tlodi o gwbl, ac mae'r naill a'r llall yn

gysylltiedig â chanlyniadau anffafriol). Mae amddifadedd sylweddol yn cael ei fesur gan ddiffyg mynediad i nwyddau a gwasanaethau y credir eu bod yn hanfodol ar gyfer bywyd arferol, ac mae'n gysylltiedig â thlodi dwfn a pharhaol.

- Mae'r siart yn dangos cyfran y plant mewn tlodi sy'n wynebu amddifadedd sylweddol ar aelwydydd sydd â statws gwaith gwahanol. Mae'r data hwn ar gyfer y DU; nid oes data ar gael eto ar gyfer Cymru.

- Mae gan amddifadedd sylweddol gysylltiad cryfach na thlodi cymharol â diffyg cyflogaeth.





**Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru (ASHE)**

**Premiymau enillion rhanbarthol, heb eu haddasu, blwyddyn yn dod i ben Mehefin 2015, %**

Gogledd-ddwyrain Lloegr
Cymru
Gogledd-orllewin Lloegr
Swydd Efrog a Humber
Yr Alban
DU
NQF Lefel 4 ac uwch
NQF Lefel 3
Prentisiaethau Crefft
Cymwysterau Eraill

**Prif negeseuon:**

- Mae’r data yn dangos cysylltiad cryf rhwng tâl cymharol a chymwysterau ym mhob rhanbarth. (Nid oes data ar gael eto ar gyfer y Cymoedd.)





Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru (MALIC)

**Cyfran "cymdogaethau" yn ôl safle amddifadedd**

Y Cymoedd
Dinasoedd
Cymysg
Gwledig
Cymru Gyfan
10% mwyaf
10% i 20%
20% i 50%
50% lleiaf

**Prif negeseuon:**

- Mae'r siart yn dangos cyfran y cymdogaethau ym mhob math o ardal yng Nghymru yn ôl lefel amddifadedd (fel y'i mesurir gan y Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru).
- Mae yna ardaloedd a phobl ddifreintiedig ym mhob rhan o Gymru. Er bod llai o ardaloedd a phobl lai difreintiedig yn y Cymoedd na mewn rhannau eraill o Gymru, mae'r llai difreintiedig yn gyfran sylweddol o'r boblogaeth o hyd. Mae dinasoedd Cymru yn cynnwys tua'r un gyfran o bobl ac ardaloedd difreintiedig â'r Cymoedd.
- Mae targedu ar sail ardaloedd yn sylfaen amherffaith ar gyfer cyrraedd y bobl fwyaf anghenus.





**Plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith**
**%, 2014**

Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Caerffili
Merthyr Tudful
Torfaen
Castell-nedd Port Talbot
Cymru

**Prif negeseuon:**

- Mae cyfran uchel o blant yn byw ar aelwydydd heb waith mewn llawer o ardaloedd y Cymoedd; mae hyn yn gysylltiedig â chanlyniadau anffafriol.





**Cyflawni'r dangosydd pynciau craidd**
**(% y rhai 15 oed, 2014-15)**

Pen-y-bont ar Ogwr
Cymru
Torfaen
Castell-nedd Port Talbot
Rhondda Cynon Taf
Caerffili
Merthyr Tudful
Blaenau Gwent

**Prif negeseuon:**

- Mae lefelau cyflawniad plant yn isel o hyd, yn enwedig yn y Cymoedd uchaf.

## Atodiad




Ffynhonnell: "Coalfield regeneration: dealing with the consequences of industrial decline", Bennet et al, JRF, 2000

**Cyflogaeth mwyngloddio ym maes glo'r De**

**Negeseuon Allweddol:**

- Mae lefelau cyflogaeth yn y diwydiant mwyngloddio wedi bod yn lleihau ers amser hir, yn bennaf oherwydd twf mewn ffynonellau pŵer amgen a gwella cynhyrchiant. Mae'r lleihad yng nghyfradd y dirywiad yn y 1970au wedi'i briodoli i'r argyfwng olew.

- Roedd cyfradd y dirywiad yn y 1980au yn arafach na'r degawdau cyn 1970.